30	Does dim angen- digon o dai ar werth yn y pentref		1	
31	***cysylltiad lleol***			1
32	Ydi'r FFYLIAD yn y brif ddinas yn deallt fod unrhyw fewnlifiant yn debygol o ddinistro ein cymuned GYMRAEG????		1	
33	Byddai pobl sydd a chysylltiad a'r ardal yn fwy parod i gyfrannu eto i fywyd yr ardal	1		
34	Ar yr amod bod yr iaith Gymraeg yn cael blaenoriaeth			1
35	Cael cartrefi hwylus i'r henoed	1		
36	Byddai datblygiad bychan fforddiadwy yn iawn ar gyfer bobl ifanc neu henoed- eiddo llai yn brin ar gyfer henoed h.y. 1 stafell wely	1		
37	Mae angen mwy o dai i bobl lleol OND angen datblygiadau BYCHAN mewn pentrefi	1		
38	Angen mwy o dai un llawr i hen bobl agos i siop a bysiau ag sydd bosib iw rhentu			1
39	Mae hyd yn oed 'ychydig o dai/datblygiad bach' yn denu 'Tai Eryri' a'i math i fachu rhai tai ac yna bydd pob math o rybish yn dod i'r ardal!!			1
40	Mae caniatad i 50 uned yn barod. Ma hyn yn fwy na digon!!!		1	
41	Cefnogi busnesau lleol fel y Siop, Cigydd, Ysgol, Neuadd ayyb	1		
42	Mae llawer o dai ar werth yn y pentref yn barod		1	
43	Dim rhesymau efallai yn posib ond ddim yn siwr eto (?)			1
44	Yn bryderus am y nifer o dai mae y cyngor /llywodraeth yn tanlinellu iw adeiladu yn Chwillog yn y blynyddoedd nesaf yn barod.			1
45	Mae'n bwysig cadw pobl ifanc yma	1		
46	Os yw'r iaith yn cael ystyriaeth, yn gefnogol cryfhau yr ysgol er budd teuluoedd Cymraeg	1		
47	There are quite a few houses on sale in Chwillog already, so there is no need to build more houses			1
48	It would ensure future of the village. Also village businesses and school	1		
49	Depends on what and where and how affordable			1
50	Define small			1
51	There isn't enough housing for everyone in this area	1		
52	Cherish your heritage. Cadw Cymru. Cymru am byth	1		
53	More work and lot of people need good housing	1		
54	Seem to be many houses on the market available at the moment why need more?		1	
55	Why discriminate		1	
56	I think the housing market is stagnant and there are already many houses of different types for sale without the need of new builds	1		
57	Need the community to be kept strong and house prices to be affordable to locals	1		
58	WHAT OTHER CONDITIONS QUALIFY AS 'LOCAL' OTHER THAN 5 YEAR RESIDENCY	1		
59	Nid oes angen adeiladu rhagor o dai yn yr ardal gan fod yn bresennol 13 o dai gwag ac ar werth yn y pentref a'i cyrion gyda prisiau amrywiol. e.g 3 ty gwag, 6 t? ar werth, 4 ty yn cynnwys 1 tyddyn bychan ag angen eu hadnewydd. Mae 2 o'r tai hyn yng nghanol y pentref sydd yn ddolur i'r llygaid. Un ers oddeutu 6 mlynedd ag 1 arall ers oddeutu 15 mlynedd. Dylid rhoi dewis i'r perchnogion hyn unai i orffen y gwaith ar y tai , eu hail werthu i rhywun arall cymwys, neu eu tynnu i lawr a twtio'r man lle maent. Rwy'n methu a deall sut fod y Cyngor yn caniatáu hyn gan ei bod yn golled ariannol sylweddol mewn trethi.		1	

	Nodwch a ydych chi'n gwybod am unrhyw safleoedd, tir, adeiladau diwydiannol neu adeiladau gweigion sydd ar gael yn ardal yr arolwg y gellir eu hystyried ar gyfer cynllun tai ar gyfer pobl lleol arwahan i safleoedd wedi eu dynodi? Rhwng fanylion yma ac enw cyswllt.	Ymateb yn Gymraeg	Ymateb yn Saesneg
1	Cae drws nesa i ty'n ddol a cae peldroed top	1	
2	Mae yna ddarn o dir tu ol i dafarn y plu fuasai'n addas ar gyfer nifer o dai i'w gosod ar rent yn unig i drigolion lleol.	1	
3	Cae drws nesaf i 'Ael y Bryn' yn ganol y pentref. Cae tu ol i Tafarn Madryn Chwilog. Bryn Hyfryd.	1	
4	Pwllheli		1
5	Hen safle golchdy afonwen	1	
6	Land between chwilog and lon goed		1
7	Cae gyferbyn a dolydd Chwilog 01766.....	1	
8	Byngalo gwag ers 2003 yn stad cae capel sef garth 3 cae capel chwilog.	1	
9	Tir o bobtu'r ffordd ger plas ewig a dolydd	1	
10	Mae tri safle ond digon o dai yn barod	1	
11	Gerddi Buckingham Palace, Gardd Carwyn Jones, Parc Carafannau lleol	1	
12	Gwybod am 3 safle ond digon o dai yn Chwilog yn barod	1	
13	Afonwen- adeilad wedi ei adael i ddirywio ers blynnyddoedd	1	
14	Mae digon wedi eu clustnodi	1	
15	I know there is one bungalow empty in cae capel estate, and has been for a long time		1
16	HafonWen?????		1

Mae cymunedau cynaliadwy angen gwaith yn ogystal â lle i fyw. Oes angen gwaith neu le i weithio arnoch? Os oes pa fath?	
Oes	Nac oes
3	7
Dim atebion arwahan i waith gweinyddol yn y diwydiant twristiaeth	

	Unrhyw sylw arall? ac A fydddech chi'n gefnogol o ddatblygiad bychan o dai ar gyfer pobl a chysylltiad lleol yn eich cymuned	Byddwn	Na fyddwn	Efallai
1	Mae Llanystumdwy yn le braf a distaw i fyw ohewrydd yr ardaloedd gwyrdd a'r coed ymysg y tai. Ddylai hyn barhau. Os fuasai newid mawr a datblygiad o fwy o dai, fyfsw yn ystyried symud o'r pentref.	0	1	0
2	Mae fy ngwr wedi bod yn byw yn ein heiddo am dros 10 mlynedd bellach ac mae wedi bod yn talu cyfraddau ar gyfer yr eiddo fel adeilad ar wahan nid anecs. Pan fyddwn yn gwneud cais i'r adran gynllunio am estyniad maent yn gyntaf yn dweud ein bod yn ei wneud er mwyn gwerthu'r eiddo. Mae'n ymddangos nad oeddynt yn cymryd bod 4 o bobl yn byw mewn eiddo un stafell wely i ystyriaeth. Yna, fe ddywedon nhw nad oedd modd i ni oherwydd bod ganddynt yr adeilad i lawr fel anecs (er ein bod ni'n talu cyfrandau ac mae fy ngwr wedi bod yn byw ynddo am dros 10 mlynedd. Nawr rydym yn gorfod talu cost ar ôl cost i'w datrys y cyfan, yn y cyfamser	1	0	0

	rydym fel teulu o 4 (merch 8 mlwydd oed a mab 10 mis oed) yn parhau i fyw mewn eiddo un stafell wely.			
3	Mae gwir angen man fel lle bwyta (caffi) bychan a siop yn y pentref yn arbennig yn ystod tymor yr ymwelwyr, gan fod cymaint o lwybrau yn dod trwy'r pentref e.g gwneud defnydd o'r neuadd gan i benwythnosau gwyl y banc fod yn llwyddianus iawn flwyddyn yn ol. Nid yw'r Plu'n agored ond ar y gyda'r nosau.	0	1	0
4	Nifer o dai ar werth yn Llan yn amrywio o ran pris o £70,000 i £260,000. Wedi bod ar y farchnad am gyfnod hir iawn. Llawer o'r gweithwyr yn dweud nad oes diddordeb – dim hyd yn oed 'viewings'.	0	0	1
5	The village is already a mix of oddly placed development it doesnt need more.	0	1	0
6	Mae angen lle parcio ceir i dai y pentref, dim ond cael parcio ar un ochr ond tai ar y ddwy ochr. Beth am gefn madryn fel maes parcio.	0	0	1
7	Rhentaf un ty a cheisio gwneud hynny i deulu ifanc lleol. Mae Eglwys Siloh hefyd yn ceisio rhentu i drigolion lleol am bris teg.	1	0	0
8	Teimlaf fod digon o dai ar werth yn Chwillog yn barod. Oes angen mwy?	0	0	1
9	Mae nifer fawr o dai ar werth yn Chwillog ar hyn o bryd.	0	1	0
10	DIM OND OS FUASAI'N GYMUNED GYMREIG. GWAITH I'R CYMRY!!!!	0	1	0
11	mae angen i unrhyw ddatblygiad fod yn fforddiadwy incwm/cyflogau yn isel yn yr ardal	1	0	0
12	Pam na chaiff ambell gais adeiladu unigol ei gymeradwyo. Petai Cyngor Gwynedd yn caniatáu ambell gais unigol ni fuasai cymaint o ofyn am stadau - bach neu beidio. Yn anffodus mae gormod o riff-raff di-waith yn cael tai neis, braf yn rhad. Pam na wnaiff y Cyngor brynu ambell dy teras sy'n bodoli yn barod a rhoi teuluoedd i fyw yn rhain? Pa hawl sydd gan ambell deulu i fagu fel cwningod ac wedyn swmian am dy 5 llofft? Mae llefydd fel Afonwen yn cael ei rhedeg gan nifer o bobl o Poland, Lithuania, Latvia, Romania. Pam? Does dim bai arnyn nhw, pobl di-waith ardal Pwllheli yn rhy fawreddog a diog i weithio yn Afonwen. Mae digonedd o waith yn yr ardal, ond mae'r bobl yn rhy fussy ac yn cael eu ffordd.	0	0	1
13	Ar hyn o bryd mae 15 o dai ar werth yn Chwillog am bris o £90,000-£450,000, rhai ohonynt ar y farchnad ers 2011. Oes angen 40 arall? Nagoes yw fy marn bendant i. Os yw'n rhaid i ddatblygiad o'r fath fynd ymlaen dylid sicrhau nad yw nawdd gymdeithasol a ieithyddol y pentref yn cael eu peryglu mewn unrhyw ffordd. Mae prinder meddygol yn broblem fawr yn yr ardal yma. A oes gwaith ar eu cyfer? Mae Ysgol Chwillog yn gymreigaidd iawn ar hyn o bryd – ofnaf yn fawr mai mewnfudwyr fyddai yn medru fforddio i brynu'r tai yma.	0	0	1
14	Digon o dai yn bresenol yn y pentref	0	0	1
15	Cefnogol yn ddibynnol fod ystyriaeth yn cael ei wneud i'r iaith	1	0	0
16	Second homes and an ageing population pose most problems. More sheltered housing needed to release more homes	0	0	1
17	Planning takes too long to pass.	1	0	0
18	IMPORTANT: How does shoreline management plan and housing insurance feed into your survey? If it doesn't then it should. works grant would change the outcomes but there isnt one.* 'the future' is all guess work. We could be dead in 5 years time but the council needs a plan. In 5 years we will not be able to care for or pay for large property. Do not know if social services input changes outcome.* We are pensioners not eligible for mortgage in future. * selfbuild-cost affects this* what is influence of 'shore' plan as insurance IS affected * better to live near a relative than spend lots of valuable time travelling. Better to know people. * What is survey area extent. Which housing areas. * CLT= very SMALL housing, needs some space for hobbies, storage, visitors. *The shoreline management plan and its influence on buildings insurance. LL53 (Chwillog) is considered a part of pwellheli flood plain by legal and general ins.co. Have you researched this consequence???	1	0	0
	Total	6	5	7

3. Stoc Tai

Tai / plotiau ar werth ac ar osod. Ionawr 2015

Mae 10 tŷ rhwng £90,000 a £200,000 ar werth yn Chwillog a dim tai i'w rhentu (rightmove)

Mae 4 tŷ rhwng £129,000 a £199,000 ar werth yn Llanystumdwy a dim tai i'w rhentu (rightmove)

4. Casgliad o'r Arolwg

Sylw cyffredinol: Siomedig oedd yr ymateb i'r arolwg. Disgwylir oddeutu 25% - 35% i ymateb i arolwg o'r fath. Sylwer nad yw pawb wedi llenwi pob cwestiwn pan ddarllenwch yr adroddiad.

1. Tystiolaeth o'r arolwg bod yna 14 (8 wedi cynnwys eu henwau a'u cyfeiriadau) yn dymuno symud yn ardal Chwillog a Llanystumdwy. Mae'r nifer yn dangos bod yna groestoriad o bobl sengl (4), a chyplau (5) a theuluoedd (4) ac arall (2) am symud.
2. Mae'r bobl sengl yn dymuno symud rhwng blwyddyn a 5 mlynedd tra bod y mwyafrif o'r cyplau (3) am symud rhwng 3- 5 mlynedd a'r teuluoedd (3) i gyd am symud o **fewn blwyddyn** ac arall un yn syth a'r llall mewn blwyddyn ond o fewn 3 blynedd.
3. Y rhesymau pennaf am y symud yw bod 3 (teulu ac arall) yn dweud bod eu cartref yn rhy fach, 4 (cwpl hŷn ac arall) yn dweud ei fod yn rhy fawr, 3 yn dweud bod eu cartref yn anaddas ar gyfer anghenion corfforol gyda 3 person sengl yn dweud eu bod angen byw yn annibynnol.
4. Y mwyafrif sydd am symud yw dynion a merched rhwng 20 -44 oed (6 bob un) gyda'r oedran nesaf fyny sef 45-64 (4 yr un) tra bod plant Ifanc 0-9 tair merch ac un bachgen gyda phobl hyn 65-74 oed (3 merch ac un dyn) am symud gyda 4 person (2 ddyn a 2 ddynes) dros 75 yn awyddus i symud.
5. Gellir ystyried ffigurau'r Llywodraeth isod bod yna ganran o dai sydd yn fach iawn o gymharu â'r nifer sydd yn byw ynddynt, ac mae'r ystadegau o'r cyfrifiad yn dangos bod 17 cartref yn ward Llanystumdwy
<https://neighbourhood.statistics.gov.uk/dissemination/LeadTableView.do?a=7&b=13696269&c=llanystumdwy&d=14&e=7&q=6489124&i=1001x1003x1004&m=0&r=1&s=1421247897609&enc=1&dsFamilyId=2557>
a gormod o bobl sef un yn fwy na ddylid ei ystyried yn byw mewn un llety. Tra bod 3 cartref a 2 aelod yn ormod yn byw yn y llety sef bod eu tŷ yn rhy fach.
6. Mae'r angen am wahanol fathau o dai gyda niferoedd llofftidd hefyd fel y gellir dychmygu bod cyplau(2) am lety 2 lofft a (3) am lety 3 lofft. Y teuluoedd yn dymuno symud i lety sydd a 3 neu 4 lofft a'r personau sengl yn edrych am 1 a 2 lofft .

7. Er mwyn fforddio llety tydy 4 cwpl ddim am rentu, sydd yn wahanol i'r personau sengl a'r teuluoedd gyda 3 person sengl a 4 teulu yn ystyried rhentu. Mae 2 or Arall hefyd ddim am rentu. Gellir tybied felly mai cyplau hyn ydy'r rhain sydd yn berchnogion.
8. O'r rhai sydd yn gallu cael morgais, mae yna fwyafrif (3) ond yn gallu fforddio hyd at £80,000 o forgais tra mae yna rai eraill (6) yn gallu fforddio hyd at £140,000 a rhai hyd at £180,000.
9. Mae'r nifer sydd yn gallu / dymuno Rhentu yn 7 tra mae'r rhai sydd yn gallu / dymuno prynu'n rhannol yn 11. (Rhaid cofio bod yr holiadur yn gofyn i'r ymatebwr am holl ffyrdd o dalu y medrent ei wneud ac nid un math). Rhaid edrych i mewn i hyn mewn mwy o fanylder os bydd cynllun datblygu o unrhyw fath yn debygol a gofyn am fwy o wybodaeth.
10. Mae mwyafrif yr ymatebwyr sydd am symud sydd am rentu yn methu gwneud hynny gan nad oes dim yn cael ei hysbysebu trwy'r asiantaethau tai ac mae rhai (3) yn methu prynu tŷ yn yr ardal ar y farchnad agored oherwydd eu bod yn rhy ddrud. Mae yna dai ar y farchnad o fewn cyrraedd 8 o'r ymatebwyr ar hyn o bryd yn yr ardal.
11. Ychydig o dystiolaeth sydd bod yna ddigonedd o dai ar gyfer rhent cyhoeddus yn ôl rhestr aros gyda 95 yn disgwyl cael eu cartrefu ond does dim sicrwydd bod y rhai hyn yn bobl lleol.
12. Fel sydd yn gyffredin mewn cymunedau ychydig sydd yn cofrestru am gael symud ty. Dim ond 2 deulu o'r 13 a ymatebodd sydd wedi nodi eu bod ar restr aros y Cyngor
13. Plot Hunan adeiladu neu adeilad gwag i'w adnewyddu - Gwelwyd bod yna ddiddordeb yn hyn gyda 8 o'r 12 a ymatebodd a diddordeb ynghyd â 2 arall yn fodlon ystyried gwneud.
14. O ran pa ardal yr hoffai'r rhai sydd am symud fyw - Ychydig o wahaniaeth oedd yna rhwng ardal Llanystumdwy (8) a Chwillog (7).
15. Gan ystyried bod yna safloedd wedi eu clustnodi yn y Cynllun Datblygu Unedol yn Chwillog i godi tai, dim pob un oedd yn gweld hyn fel ardal y b yddent am symud iddo i fyw gyda 5 yn dweud y byddent, 2 efallai ond 4 yn dweud na fyddent.
16. Pan ofynnwyd am ymateb i gwestiwn am Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol ac a oedd angen un yn yr ardal; arwahan i'r rhai oedd wedi datgan diddordeb mewn angen am dy yn yr ardal, ychydig iawn oedd yn ystyried bod angen YmTiC. Ymatebodd 11 o'r holl ymatebwyr eu bod yn credu bod angen YMTIC a 50 yn dweud 'Dim yn siŵr / efallai', i'r cwestiwn gyda 38 o'r rhain wedi llenwi yn Gymraeg a 12 yn Saesneg. O bosib nad oes yna ddigon o drigolion lleol yn ymwybodol o beth yw hyn.
17. Pan holwyd am gyfleoedd gwaith. Ychydig oedd yr ymateb (10) gyda sylw unai eu bod yn 'rhy hen', 'lle mae'r gwaith' a'r unig sylw oedd angen am swydd gweinyddol maes twristiaeth. Doedd neb yn holi am unedau gwaith nac arall.
18. Hefyd ym Mawrth 2014 yn ôl Cyngor Gwynedd mae yna 20 o dai gweigion hir dymor wedi eu cofrestru felly yn ardal Cyngor Llanystumdwy.

5. Ffordd Posib Ymlaen

1. Dylid ystyried cynnal diwrnod agored ar gyfer y rheiny na wnaeth ymateb
2. Cofrestru'r rhai nad sydd ar restr aros er mwyn cadarnhau'r dystiolaeth ac i gadarnhau eu bod mewn angen, bydd rhaid cael mwy o fanylion gan unigolion er mwyn symud ymlaen.
3. Angen ystyried sut mae modd gwneud gwell defnydd o stoc tai presennol yr ardal gyda nifer o dai gweigion.
4. Os yn penderfynu ar ddatblygiad, mae angen canfod tiroedd addas / addasu hen adeiladau ar gyfer datblygiad bychan yn Chwillog a Llanystumdwy!
5. Gyda safleoedd a chynlluniau i ddatblygu tai wedi eu cymeradwyo yn y CDU beth yw'r ffordd ymlaen ynghylch datblygu'r safleoedd hyn os o gwbl ar raddfa dderbyniol gan bawb – bydd angen trafodaeth pellach ar hyn rhwng rhanddeiliaid sydd yn cynnwys datblygwr, tirlfeddiannwr, adran cynllunio a'r gymuned leol ac ati fydd yn lles i'r ardal gan gynnwys effaith ar wasanaethau presennol, addysg, diwylliant, economi ac isadeiladedd ac ati.
6. Nid oes grant tai cymdeithasol ar gael yn y tymor byr ond mae posibilrwydd edrych ar fenthg arian drwy Ymddiriedolaeth Tir Cymunedo i ddiwallu angen i dalu am hunan adeiladu neu adnewyddu a chael morgais i dalu hyn ar ddiwedd y gwaith. Bydd angen sefydlu grwp lleol i weithredu hyn mewn perthynas ag ymddiriedolaeth tir cymunedol sirol a chefnogaeth swyddog. (sydd yn cael ei wyntyllu ar hyn o bryd.)

Aseswyd gan
Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd
4 Stryd Fawr,
Blaenau Ffestiniog,
Gwynedd,
LL41 3ES
01766 831083

Arfon Hughes, Hwylusydd Tai Gwledig – Rural Housing Enabler
Ionawr 2015

Ffynonellau gwybodaeth/ Information sources:
Cyngor Gwynedd
NESS a NOMIS gwefannau'r Llywodraeth
Asiantaethau Tai Lleol.

Asesiad o sefyllfa'r Gymraeg yng Ngwynedd ar sail cyfrifiadau 2001 a 2011

Roedd union 77,000 o drigolion Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011. Mae hyn yn cymharu â 77,841 yn 2001, sy'n golygu gostyngiad bach o ran niferoedd, ond gan fod poblogaeth y sir wedi cynyddu 5,000, mae'n golygu cwmp mwy sylweddol yn y ganran - o 69% i 65.4% mewn 10 mlynedd.

Cyn gwneud unrhyw ddadansoddiad pellach, y peth cyntaf i'w nodi yw nad yw'r sir yn unffurf yn ieithyddol nac o ran y newid sydd wedi digwydd rhwng 2001 a 2011. Fel anheddiad mwyaf y sir, mae'r ganran isel sy'n siarad Cymraeg ym Mangor yn dylanwadu'n ormodol ar ffigurau gweddill y sir, ac mae ffigurau Bangor eu hunain wedi cael eu hystumio'n sylweddol gan y niferoedd o fyfyrwyr yno. O'r cynnydd o 5,000 ym mhoblogaeth Gwynedd, roedd 2,500 ohono'n gynydd yn niferoedd pobl ifanc rhwng 16-24 oed ym Mangor yn unig – sy'n awgrymu cynnydd sylweddol iawn yn niferoedd y myfyrwyr rhwng 2001 a 2011. Nid oes ryfedd felly mai Bangor a welodd y gostyngiad mwyaf yn y ganran o siaradwyr Cymraeg drwy'r sir. Trefi a phentrefi glan-môr de Meirionnydd yw'r ardaloedd mwyaf Seisnig eraill yn y sir.



Er mwyn cael darlun cyflawn o sefyllfa'r Gymraeg yn y sir mae angen edrych ar wahanol ardaloedd yn unigol:


- i) Bangor, lle disgynnodd y gyfran sy'n siarad Cymraeg o 46.6% yn 2001 i 36.4% yn 2011. Er bod hyn i'w briodoli'n bennaf i'r cynnydd o dros 2,500 ym mhoblogaeth y dref, gwelwyd lleihad o 396 yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg hefyd, a hynny'n bennaf ymysg oedolion hŷn.

- ii) Gweddill Arfon, lle mae 77% yn siarad Cymraeg. Cafwyd cynnydd o 676 yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg yma rhwng 2001 a 2011, ond gan fod y boblogaeth gyffredinol wedi cynyddu 1456, cafwyd lleihad bychan yn y ganran – roedd 78.2% yn siarad Cymraeg yma yn 2001.
- iii) Llŷn ac Eifionydd, lle mae 71.2% yn siarad Cymraeg o gymharu â 73.3% yn 2001. Cafwyd gostyngiad o 370 yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg yma.
- iv) Gogledd Meirionnydd, lle mae 76.3% yn siarad Cymraeg o gymharu â 78.6% yn 2001. Cafwyd cwmp o 103 yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg yn ystod y 10 mlynedd.
- v) De Meirionnydd, ardal gymharol fach lle disgynnodd y ganran sy'n siarad Cymraeg o 67.1% yn 2001 i 62.1% yn 2011. Collwyd 130 o siaradwyr Cymraeg, tra bod y boblogaeth gyffredinol wedi cynyddu 203.
- vi) Arfordir Meirionnydd – dyma ardal fwyaf Seisnig y sir, ar ôl Bangor. Aeth y ganran sy'n siarad Cymraeg yma i lawr o 46.6% i 43.0% yn 2011, ac aeth y niferoedd i lawr o 6557 i 6139 – colled o 418.


	2001			2011		
Ardal	Cyfanswm poblogaeth	Nifer siaradwyr Cymraeg	% siaradwyr Cymraeg	Cyfanswm poblogaeth	Nifer siaradwyr Cymraeg	% siaradwyr Cymraeg
Bangor	13298	6197	46.6	15928	5801	36.4
Gweddill Arfon	41997	32879	78.2	43453	33455	77.0
Llŷn ac Eifionydd	25626	18796	73.3	25879	18426	71.2
Gogledd Meirionnydd	12682	9972	78.6	12937	9869	76.3
De Meirionnydd	5123	3440	67.1	5326	3310	62.1
Arfordir Meirionnydd	14053	6557	46.6	14266	6139	43.0

Y peth arall amlwg a holl bwysig i'w nodi mewn unrhyw asesiad ieithyddol o Wynedd yw cymaint cryfach yw'r Gymraeg yma nag unrhyw un arall o siroedd Cymru. Mae'r pedwar graff ar y dudalen nesaf yn dangos y ganran o boblogaeth Gwynedd sy'n siarad Cymraeg, y ganran o'r boblogaeth a aned yng Nghymru, y ganran o'r rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg, ac yn olaf y ganran o'r rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg.


Gwynedd gyfan: Siaradwyr Cymraeg a rhai sy'n deall Cymraeg llafar yn unig fel canran o'r boblogaeth, 2011




Gwynedd gyfan: Y ganran o'r boblogaeth a aned yng Nghymru, 2011



Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg y bobl a aned yng Nghymru, 2011



Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg y bobl a aned y tu allan i Gymru, 2011




Gwelwn fod traean o boblogaeth y sir wedi eu geni'r tu allan i Gymru a bod mwyafrif llethol y rheini a aned yng Nghymru'n siarad Cymraeg. Mae'r ganran hon yn codi i tua 95% yn ardaloedd Cymreiciaf y sir. O gofio na fydd pawb o'r rheini a aned yng Nghymru o angenrheidrwydd wedi eu geni'n lleol, gellir tybio bod y ganran o'r boblogaeth frodorol sy'n siarad Cymraeg yn uwch fyth. Yr unig ardal lle nad yw'r mwyafrif llethol o'r boblogaeth Gymreig yn siarad Cymraeg yw Bangor.

Er mai dim ond 20% o'r rheini a aned y tu allan i Gymru sy'n gallu siarad Cymraeg, mae'n werth nodi bod y gyfran hon hefyd yn sylweddol uwch na'r ganran gyfatebol mewn mannau eraill yng Nghymru.

Mae'r ystadegau hyn sy'n dangos y berthynas rhwng mannau geni a'r gallu i siarad Cymraeg yn neilltuol o arwyddocaol gan eu bod yn awgrymu i ba raddau y mae'r boblogaeth leol yn dal gafael ar yr iaith, ac i ba raddau hefyd y mae mewnfudwyr yn cael eu cymhathu. Mae'r ganran o 89% o'r boblogaeth a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg yn arbennig o uchel o'i gymharu â'r hyn yw mewn siroedd eraill – y ganran gyfatebol yn sir Gaerfyrddin yw 54%.

Mae'r graff canlynol yn edrych ar y berthynas rhwng iaith a grwpiau oedran, lle mae'r bwlch rhwng y llinell goch a'r llinell wyrdd tywyll yn cynrychioli'r boblogaeth ddi-Gymraeg, a'r bwlch rhwng y llinell goch a'r llinell wyrdd golau yn cynrychioli'r boblogaeth a aned y tu allan i Gymru:

Poblogaeth fesul grwp oedran, 2011




Gwelwn oddi wrth y ddwy linell werdd mor agos yw'r niferoedd a aned yng Nghymru a'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg. Mae'n bwysig nodi fodd bynnag yr ymdrinir â mannau geni ac iaith fel dau fater cwbl ar wahân yn y graff uchod – oherwydd mae'r niferoedd a aned yng Nghymru'n cynnwys rhai pobl ddi-Gymraeg, ac mae'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg yn cynnwys pobl a aned y tu allan i Gymru.

Mae'r graff nesaf yn dangos dadansoddiad fesul oedrannau manwl – a dim ond am y sir gyfan y mae'r ffigurau hyn ar gael. Unwaith eto, mae'r bwlch rhwng y llinell goch a'r llinell wyrdd yn cynrychioli'r boblogaeth ddi-Gymraeg.

Yr oedran ieuengaf a ddefnyddir wrth fesur y gallu i siarad Cymraeg yw 3 oed, ac mae 69.2% o blant 3 oed y sir yn siarad Cymraeg. Gan nad yw cymaint o blant sydd o gartrefi di-Gymraeg wedi dysgu'r iaith yn yr oedran yma, mae'n sylweddol is na'r hyn yw am iaith plant oedran ysgol, ac yn rhoi rhyw awgrym o faint o blant sy'n clywed y Gymraeg ar yr aelwyd. Unwaith eto, mae Gwynedd yn sefyll allan gyda chyfran llawer uwch nag mewn siroedd eraill ymhlith y gyfran o'r plant ieuengaf sy'n gallu'r Gymraeg. Y canrannau cyfatebol am rai o'r siroedd Cymreiciaf eraill yw: Ceredigion – 51%; Sir Fôn – 49%; Sir Gaerfyrddin – 39%; Conwy – 25% a Sir Ddinbych – 22%.


Gwelwn fod canrannau uchel iawn o blant oedran ysgol yn gallu siarad Cymraeg, ac mae'r cynnydd anferth yn y bobl ifanc ddi-Gymraeg rhwng tua 18 a 23 oed yn dangos effaith niferoedd myfyrwyr ar y ffigurau. Mae'r ddwy linell yn dod yn nes at ei gilydd wedyn ymysg oedolion iau ond yn dechrau dechrau lledu ymysg oedolion hŷn, o tua 57 oed ymlaen. Y rheswm fod y ddwy linell yn dringo ar y diwedd yw ei bod yn dynodi pawb dros 85 oed.


Y gallu i siarad Cymraeg fesul oedran yng Ngwynedd yn 2011



Mae'r graffiau nesaf yn dangos y newidiadau rhwng 2001 a 2011. Gwelwn fod y cynnydd yn y boblogaeth i'w briodoli i dri grŵp oedran, sef pobl ifanc 16-24 oed, oedolion 50 i 74 oed, ac i raddau llai, oedolion dros 75 oed. Mae gostyngiad gweddol sylweddol ar y llaw arall yn niferoedd y plant, a gostyngiad bach hefyd ymysg oedolion rhwng 25 a 49 oed. Mae'r ganran o blant sy'n siarad Cymraeg wedi mwy na dal ei ei thir, ond tra cafwyd cynnydd o 2,533 yn y boblogaeth gyffredinol rhwng 50 a 74 oed, cynnydd o 162 yn unig a gafwyd yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg.

Cyfanswm poblogaeth a niferoedd siaradwyr Cymraeg, 2001 a 2011





Cyn troi i fanylu ar yr ardaloedd unigol, mae angen pwysleisio unwaith eto pa mor gwbl allweddol a chreiddiol yw Gwynedd i ddyfodol y Gymraeg fel iaith sy'n cael ei siarad yn naturiol yn y gymdeithas. Nodwyd eisoes mor gryf yw gafael y Gymraeg ymysg trigolion brodorol, a hefyd o ran y gyfran o blant 3 oed sy'n siarad Cymraeg.

Ar ben hyn, y darn o dir sy'n cynnwys y cyfan o Arfon heblaw Bangor, Llŷn ac Eifionydd a gogledd Meirionnydd yw'r talp mwyaf o ddigon o brif ardal graidd y Gymraeg yn y gogledd-orllewin.

Mae mymryn dros 75% o'r 82,000 o drigolion y rhan hon o Wynedd yn siarad Cymraeg, a'r unig ardaloedd eraill lle ceir canrannau tebyg yw canolbarth sir Fôn mewn ardal sy'n canoli'n bennaf o amgylch tref Llangefni, ac ardal wledig a thenau ei phoblogaeth yn ne-orllewin sir Conwy sy'n ffinio â hi. O'r bobl a aned yng Nghymru, mae rhwng 92% a 94% o bob grŵp oedran yn siarad Cymraeg. Mae 27% o'r rhai a aned y tu allan i Gymru'n siarad Cymraeg, a'r gyfran yn codi i 75% ymhlith plant 3-15 oed a 48% ymhlith pobl ifanc 16-24 oed.

Mae'r adrannau nesaf yn ymdrin â'r gwahanol ardaloedd unigol yn eu tro, gan ddechrau gyda Bangor.

Bangor

Mae'r graffiau a'r tablau canlynol yn ymwneud ag wyth ward y ddinas – Menai, Deiniol, Garth, Dewi, Hendre, Marchog, Glyder a Hiracl.

Yr hyn sy'n amlwg yw cymaint y mae niferoedd myfyrwyr yn effeithio ar y ffigurau; ac mae hyn yn amlycach fyth wrth edrych ar rai wardiau ar wahân.


Ar yr un pryd mae yma arwyddion o ddirywiad cynhenid hefyd, gyda chanrannau uwch o'r bobl hŷn sydd wedi eu geni yng Nghymru yn siarad Cymraeg o gymharu â grwpiau cyfatebol o oedolion iau.

Y ffigur mwyaf trawiadol yma, ac efallai'r un mwyaf arwyddocaol, yw mai dim ond 20.1% o'r boblogaeth rhwng 16 a 24 oed sy'n siarad Cymraeg, ffigur y gellir yn sicr ei briodoli i fyfyrwyr, yn enwedig o weld nifer mor anghyffredin o uchel o bobl yn yr oedran yma sydd yn y ddinas. Mae 4776 allan o'r 6664 (dros 70%) o'r bobl ifanc hyn wedi eu geni'r tu allan i Gymru.


Ar y llaw arall, mae'r gyfran o'r bobl a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg yn llawer iawn is nag yng ngweddill Gwynedd – 64.4%. Fe welwn hefyd ei fod yn uwch ymhlith y bobl dros 65 oed, yn enwedig ymysg y rhai sydd wedi eu geni yng Nghymru.

Ar ben hyn, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol yn 400 yn is na'r hyn oeddent 10 mlynedd ynghynt. Mae hyn yn cynnwys lleihad o dros 300 yn y grwp oedran 50-74 a thros 50 yn y grwp dros 75.


**Siaradwyr Cymraeg a rhai sy'n deall Cymraeg llafar yn unig fel canran
o'r boblogaeth, 2011**




Y gallu i siarad Cymraeg, a deall Cymraeg llafar yn unig, yn ôl mannau geni, 2011




Poblogaeth fesul grwp oedran, 2011



	3-15 oed	16-24 oed	25-49 oed	50-74 oed	dros 75 oed
—◆— Cyfanswm poblogaeth	1,687	6,664	4,048	2,596	933
—■— Pobl a aned yng Nghymru	1,404	1,888	2,198	1,786	630
—▲— Siaradwyr Cymraeg	1,179	1,339	1,599	1,151	533




Cyfanswm poblogaeth a niferoedd siaradwyr Cymraeg, 2001 a 2011




Wardiau Menai, Garth a Deiniol

Mae dylanwad myfyrwyr i'w weld yn gliriach fyth os edrychwn ar rannau o'r ddinas ar wahân, lle gwelwn fod 2,055 yn fwy o bobl ifanc 16-24 yn wardiau Menai, Garth a Deiniol yn 2011 nag oedd yn 2001.


Dyma'r ffigurau am y wardiau hyn:



Bangor - wardiau Menai, Garth a Deiniol: Poblogaeth fesul oedran, 2011



Bangor - wardiau Menai, Garth a Deiniol: Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl oedran, 2001 a 2011




Cyfanswm poblogaeth 2001	272	2,648	1,032	599	287
Cyfanswm poblogaeth 2011	255	4,703	1,139	541	247
Nifer siaradwyr Cymraeg, 2001	199	521	394	273	169
Nifer siaradwyr Cymraeg, 2011	162	693	285	210	121


Bangor: Gweddill y ddinas (wardiau Marchog, Glyder, Dewi, Hiracl, Hendre)

Mae dylanwad myfyrwyr yn llawer llai amlwg yma, a chwymp yn niferoedd y bobl hŷn sy'n siarad Cymraeg yw'r hyn sy'n bennaf gyfrifol am y dirywiad.


Bangor - gweddill y ddinas: Siaradwyr Cymraeg a rhai sy'n deall Cymraeg llafar yn unig, fel canran o'r boblogaeth, 2011



Bangor - gweddill y ddinas: Poblogaeth fesul oedran, 2011



Bangor - gweddill y ddinas: Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl oedran, 2001 a 2011




Arfon (heblaw Bangor)


Pe bai rhywun yn edrych ar Arfon gyfan fel un rhanbarth, byddai'r gyfran sy'n siarad Cymraeg yno – 66% - yn ddigon tebyg i gyfartaledd Gwynedd. Mae'r ffigur hwn yn gymharol ddiystyr fodd bynnag gan fod y gyfran isel ym Mangor yn effeithio'n ormodol ar y gyfran gyffredinol gan roi darlun camarweiniol.

Os tynnwn ni ddinas Bangor allan ac edrych ar weddill Arfon gyda'i gilydd, cawn ardal lle mae 77% o'r trigolion yn siarad Cymraeg. Mae patrwm daearyddol pendant o fewn yr ardal, gyda'r canrannau uchaf o ddigon i'w gweld yn nhref Caernarfon a'r canolfannau lled-drefol cyfagos lle mae dros 80% yn siarad Cymraeg. Mae dros 77% yn siarad Cymraeg ym Methesda hefyd. Mae'r canrannau'n tueddu i ostwng yn nes at tua 70% yn y pentrefi mwy ucheldirol. Yr ardal lle mae'r Gymraeg wanaf a'r unig leoedd lle mae'r canrannau'n gostwng o dan 70% yw'r pedair ward ar gyrion Bangor: Y Felinheli, Arllechwedd, Tregarth a Pentir.

Siaradwyr Cymraeg a rhai sy'n deall Cymraeg llafar yn unig fel canran o'r boblogaeth, 2011




Y ganran o'r boblogaeth a aned yng Nghymru, 2011




Poblogaeth fesul grwp oedran, 2011




Y gallu i siarad Cymraeg, a deall Cymraeg llafar yn unig, yn ôl mannau geni, 2011







Cyfanswm poblogaeth a niferoedd siaradwyr Cymraeg, 2001 a 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg plant 3-15 oed, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg plant 3-15 oed a aned yng Nghymru, 2011




Y ganran o blant 3-15 oed a aned yng Nghymru, 2011



Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg plant 3-15 oed a aned y tu allan i Gymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg pobl ifanc 16-24 oed, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg pobl ifanc 16-24 oed a aned yng Nghymru, 2011




Y ganran o bobl ifanc 16-24 oed a aned yng Nghymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg pobl ifanc 16-24 oed a aned y tu allan i Gymru, 2011




**Y gallu i siarad Cymraeg neu ddeall
Cymraeg ymysg oedolion 25-49 oed,
2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg
ymysg oedolion 25-49 oed a aned yng
Nghymru, 2011**




**Y ganran o oedolion 25-49 oed a aned
yng Nghymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg
ymysg oedolion 25-49 oed a aned y tu
allan i Gymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg
ymysg oedolion 50-74 oed, 2011**



**Y ganran o oedolion 50-74 oed a aned
yng Nghymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg
ymysg oedolion 50-74 oed a aned yng
Nghymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg
ymysg oedolion 50-74 oed a aned y tu
allan i Gymru, 2011**



Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion dros 75 oed, 2011




Y ganran o oedolion dros 75 oed a aned yng Nghymru, 2011



Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion dros 75 oed a aned yng Nghymru, 2011



Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion dros 75 oed a aned y tu allan i Gymru



Llŷn ac Eifionydd

Roedd 71.2% o drigolion Llŷn ac Eifionydd yn siarad Cymraeg yn 2011. Mae'r canrannau yma'n is na'r hyn ydynt yn ardal Caernarfon, a mewnfudo sydd bron yn gyfan gwbl gyfrifol am hynny, gan fod gafael y Gymraeg yn ymddangos yn gadarn iawn ar y boblogaeth frodorol.


Mae gostyngiadau bach wedi bod yn niferoedd a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg yma o gymharu â 2001. Mae cwmp o 370 wedi bod yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg yma yn ystod y 10 mlynedd. Gan fod y boblogaeth gyffredinol wedi cynyddu 253, mae'n golygu bod y ganran wedi gostwng 2.1% o 73.3% yn 2001 i 71.2%.

Mae mwyafrif llethol – 94% - o'r rhai sydd wedi eu geni yng Nghymru'n siarad Cymraeg. Mae hyn gyda'r ganran uchaf yng Nghymru. O gofio y gall y rhai a aned yng Nghymru gynnwys rhai a ymfudodd yma o rannau llai Cymraeg o Gymru, mae'n rhesymol tybio fod fwy neu lai bawb sydd wedi eu geni a'u magu o fewn yr ardal yn siarad Cymraeg.


Mae'r gwahaniaeth rhwng y grwpiau oedran yn drawiadol iawn yma, gyda'r mewnfudwyr yn tueddu i fod yn bobl hŷn ar y cyfan ac yn llawer llai tebygol o fod yn gallu siarad Cymraeg na mewnfudwyr o grwpiau iau. Diddorol yw nodi bod cyfrannau helaeth o'r bobl ifanc a aned y tu allan i Gymru'n gallu siarad Cymraeg – canrannau sydd gyda'r uchaf yng Nghymru.

Ar y cyfan nid oes amrywiaeth mawr iawn o fewn yr ardal, ac eithrio'r ffaith fod rhai pentrefi glan môr fel Abersoch a Llanbedrog yn fwy Seisnig na'r gweddill, ac mae arwyddion o ddirywiad mwy na'r cyfartaledd i'w weld yn ardal Porthmadog ac ym Morfa Nefyn. Mae ffigurau eraill o'r cyfrifiad yn dangos bod 116 yn fwy o bobl a aned yn Lloegr ym Mhorthmadog a 80 yn fwy yn Nefyn yn 2011 nag yn 2001.


**Siaradwyr Cymraeg a rhai sy'n deall Cymraeg llafar yn unig fel canran
o'r boblogaeth, 2011**




Y ganran o'r boblogaeth a aned yng Nghymru, 2011




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg y bobl a aned yng
Nghymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg y bobl a aned y tu allan i Gymru,
2011**



Y gallu i siarad Cymraeg, a deall Cymraeg llafar yn unig, yn ôl manau geni, 2011




Poblogaeth fesul grwp oedran, 2011




	3-15 oed	16-24 oed	25-49 oed	50-74 oed	dros 75 oed
Cyfanswm poblogaeth	3,729	2,385	7,458	8,994	3,313
Pobl a aned yng Nghymru	3,324	1,996	5,213	5,106	1,939
Siaradwyr Cymraeg	3,448	2,113	5,557	5,361	1,947

Cyfanswm poblogaeth a niferoedd siaradwyr Cymraeg, 2001 a 2011



Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl grwp oedran, 2001 a 2011



Mae'r ddau graff uchod yn rhoi'r darlun cyffredinol o newid rhwng 2001 a 2011. Mae'r boblogaeth gyffredinol wedi cynyddu o 25,626 i 25,879, sef cynnydd o 253, tra bod y boblogaeth Gymraeg wedi gostwng o 18,796 i 18,426 sef gostyngiad o 370. Sy'n golygu bod y boblogaeth ddi-Gymraeg wedi cynyddu o 6,830 yn 2001 i 7,453 yn 2011 – cynnydd o 623.

Wrth edrych yn fanylach ar y grwpiau oedran, gwelwn gynnydd o 327 yn y boblogaeth 50-74 oed rhwng 2001 a 2011 a chynnydd o 377 yn y boblogaeth dros 75 oed. O ystyried y ffigurau cyfatebol am siaradwyr Cymraeg, mae modd gweld mai pobl ddi-Gymraeg sy'n cyfrif am 300 o'r cynnydd ymysg pobl 50-74 oed, ac am 287 o'r cynnydd ymysg pobl dros 75. O gofio bod o leiaf 92% o'r bobl sydd wedi eu geni yng Nghymru'n siarad Cymraeg, mae'n amlwg mai pobl o'r tu allan ydi mwyafrif llethol y rhain.

I grynhoi, y darlun o'r newid rhwng 2001 a 2011 yw:




142 yn llai o siaradwyr Cymraeg o dan 50 oed
594 yn fwy o bobl di-Gymraeg dros 50 oed

Allan o'r 12,307 o bobl dros 50 oed, cafodd 7,045 eu geni yng Nghymru, a 6,512 ohonynt yn siarad Cymraeg (92.4%). Cafodd 5,262 eu geni y tu allan i Gymru, ac o'r rhain mae 796 (15%) yn siarad Cymraeg.


Mae'r graffiau canlynol yn dangos y gwahaniaethau o fewn y grwpiau oedran o ran y canrannau a aned yng Nghymru a'r canrannau sy'n siarad Cymraeg o fewn y grwpiau oedran.

Nid yw'n annisgwyl gweld mwyafrif llethol ar draws pob grwp oedran o'r rhai a aned yng Nghymru yn siarad Cymraeg, ond diddorol yw nodi'r gwahaniaethau rhwng grwpiau oedran ymysg y rhai a aned y tu allan i Gymru. Mae


mwyafrif llethol y plant a thros hanner y bobl ifanc a aned y tu allan i Gymru'n siarad Cymraeg. Ar y llaw arall, rhaid cofio mai sôn am niferoedd bychain yr ydym yma, gan fod canrannau llawer uwch o bobl hŷn wedi eu geni'r tu allan i Gymru. Mae bron i 43% o bobl dros 50 oed Llyn ac Eifionydd wedi eu geni'r tu allan i Gymru o gymharu â 22% o'r bobl o dan 50.




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg
ymysg pobl ifanc 16-24 oed, 2011**




**Y ganran o bobl ifanc 16-24 oed a aned
yng Nghymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg
ymysg pobl ifanc 16-24 oed a aned yng
Nghymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg
pobl ifanc 16-24 oed a aned y tu allan i
Gymru, 2011**




**Y gallu i siarad Cymraeg neu ddeall
Cymraeg ymysg oedolion 25-49 oed,
2011**




**Y ganran o oedolion 25-49 oed a aned
yng Nghymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg
ymysg oedolion 25-49 oed a aned yng
Nghymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg
oedolion 25-49 oed a aned y tu allan i
Gymru, 2011**




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion 50-74 oed, 2011




Y ganran o oedolion 50-74 oed a aned yng Nghymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion 50-74 oed a aned yng Nghymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion 50-74 oed a aned y tu allan i Gymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion dros 75 oed, 2011




Y ganran o oedolion dros 75 oed a aned yng Nghymru, 2011



Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion dros 75 oed a aned yng Nghymru, 2011



Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion dros 75 oed a aned y tu allan i Gymru



Gogledd Meirionnydd


(wardiau Bala, Bowydd a Rhiw, Diffwys a Maenofferen, Llandderfel, Llanuwchllyn, Penrhyndeudraeth, Teigl a Trawsfynydd)

Pe bai rhywun yn edrych ar Feirionnydd gyfan, mae'r gyfran sy'n siarad Cymraeg yno yn 59%. Fel yn Arfon fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth rhwng rhanbarthau i wneud hwn yn ffigur ystyrlon.


Mae gogledd Meirionnydd – sef Penrhyndeudraeth, Trawsfynydd, Ffestiniog, y Bala a Phenllyn yn llawer Cymreiciach na'r gweddill gyda dros dri chwarter y boblogaeth yn siarad Cymraeg.

Mae hyn yn cyferbynnu'n llwyr â threfi'r arfordir fel Tywyn, y Bermo ac Aberdyfi, lle mai lleiafrif o'r boblogaeth sydd wedi eu geni yng Nghymru, heb sôn am allu siarad Cymraeg.


Siaradwyr Cymraeg a rhai sy'n deall Cymraeg llafar yn unig fel canran o'r boblogaeth, 2011



Y ganran o'r boblogaeth a aned yng Nghymru, 2011




Y gallu i siarad Cymraeg, a deall Cymraeg llafar yn unig, yn ôl manau geni, 2011




Poblogaeth fesul grwp oedran, 2011




Cyfanswm poblogaeth a niferoedd siaradwyr Cymraeg, 2001 a 2011







Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg plant 3-15 oed, 2011




Y ganran o blant 3-15 oed a aned yng Nghymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg plant 3-15 oed a aned yng Nghymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg plant 3-15 oed a aned y tu allan i Gymru, 2011



**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg
ymysg pobl ifanc 16-24 oed, 2011**




**Y ganran o bobl ifanc 16-24 oed a aned
yng Nghymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg
ymysg pobl ifanc 16-24 oed a aned yng
Nghymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg
pobl ifanc 16-24 oed a aned y tu allan i
Gymru, 2011**




**Y gallu i siarad Cymraeg neu ddeall
Cymraeg ymysg oedolion 25-49 oed,
2011**




**Y ganran o oedolion 25-49 oed a aned
yng Nghymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg
ymysg oedolion 25-49 oed a aned yng
Nghymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg
oedolion 25-49 oed a aned y tu allan i
Gymru, 2011**




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion 50-74 oed, 2011




Y ganran o oedolion 50-74 oed a aned yng Nghymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion 50-74 oed a aned yng Nghymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion 50-74 oed a aned y tu allan i Gymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion dros 75 oed, 2011




Y ganran o oedolion dros 75 oed a aned yng Nghymru, 2011



Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion dros 75 oed a aned yng Nghymru, 2011



Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion dros 75 oed a aned y tu allan i Gymru




De Meirionnydd


**Wardiau Brithdir, Llanfachreth, Ganllwyd a Llanelltyd; Corris a Mawddwy; De
Dolgellau; Gogledd Dolgellau)**

Er bod mwyafrif clir (62%) yn dal i siarad Cymraeg yn yr ardal hon o gwmpas tref Dolgellau, gwelwyd dirywiad pur sylweddol o gymharu â'r hyn oedd yn 2001 pryd roedd y ganran yn 67%.


**Siaradwyr Cymraeg a rhai sy'n deall Cymraeg llafar yn unig fel
canran o'r boblogaeth, 2011**



Y ganran o'r boblogaeth a aned yng Nghymru, 2011




Y gallu i siarad Cymraeg, a deall Cymraeg llafar yn unig, yn ôl mannau geni, 2011




Poblogaeth fesul grwp oedran, 2011




Cyfanswm poblogaeth a niferoedd siaradwyr Cymraeg, 2001 a 2011







Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg plant 3-15 oed, 2011




Y ganran o blant 3-15 oed a aned yng Nghymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg plant 3-15 oed a aned yng Nghymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg plant 3-15 oed a aned y tu allan i Gymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg pobl ifanc 16-24 oed, 2011




Y ganran o bobl ifanc 16-24 oed a aned yng Nghymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg pobl ifanc 16-24 oed a aned yng Nghymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg pobl ifanc 16-24 oed a aned y tu allan i Gymru, 2011




Y gallu i siarad Cymraeg neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion 25-49 oed, 2011




Y ganran o oedolion 25-49 oed a aned yng Nghymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion 25-49 oed a aned yng Nghymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion 25-49 oed a aned y tu allan i Gymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion 50-74 oed, 2011




Y ganran o oedolion 50-74 oed a aned yng Nghymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion 50-74 oed a aned yng Nghymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion 50-74 oed a aned y tu allan i Gymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion dros 75 oed, 2011




Y ganran o oedolion dros 75 oed a aned yng Nghymru, 2011



Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion dros 75 oed a aned yng Nghymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion dros 75 oed a aned y tu allan i Gymru




Arfordir Meirionnydd (wardiau Aberdyfi, Abermaw, Bryncrug, Dyffryn Ardudwy, Harlech, Llanbedr, Llangelynnin, Tywyn)

Lleiafrif yn unig o'r boblogaeth sydd wedi eu geni yng Nghymru, sef 44%, ac mae'r ganran yn disgyn i 32% ymhlith pobl rhwng 50 a 74 oed. Er bod mwyafrif mawr o'r bobl a aned yng Nghymru'n gallu siarad Cymraeg, mae'r canrannau'n is na'r hyn ydynt yn rhannau Cymreiciach y sir. Mae'r cwmp o 418 yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011 hefyd ar raddfa fwy na'r yw yn y rhan fwyaf o Wynedd.


**Siaradwyr Cymraeg a rhai sy'n deall Cymraeg llafar yn unig fel
canran o'r boblogaeth, 2011**




Y ganran o'r boblogaeth a aned yng Nghymru, 2011



Y gallu i siarad Cymraeg, a deall Cymraeg llafar yn unig, yn ôl mannau geni, 2011




Poblogaeth fesul grwp oedran, 2011




—◆— Cyfanswm poblogaeth
—■— Pobl a aned yng Nghymru
—▲— Siaradwyr Cymraeg


	3-15 oed	16-24 oed	25-49 oed	50-74 oed	dros 75 oed
Cyfanswm poblogaeth	1,618	1,178	3,547	5,818	2,105
Pobl a aned yng Nghymru	1,313	743	1,640	1,864	767
Siaradwyr Cymraeg	1,392	807	1,599	1,663	678

Cyfanswm poblogaeth a niferoedd siaradwyr Cymraeg, 2001 a 2011







Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg plant 3-15 oed, 2011




Y ganran o blant 3-15 oed a aned yng Nghymru, 2011




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg plant 3-15 oed a aned yng Nghymru, 2011




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg
plant 3-15 oed a aned y tu allan i Gymru,
2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg
ymysg pobl ifanc 16-24 oed, 2011**




**Y ganran o bobl ifanc 16-24 oed a aned yng
Nghymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg
ymysg pobl ifanc 16-24 oed a aned yng
Nghymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg
pobl ifanc 16-24 oed a aned y tu allan i
Gymru, 2011**




**Y gallu i siarad Cymraeg neu ddeall
Cymraeg ymysg oedolion 25-49
oed, 2011**




**Y ganran o oedolion 25-49 oed a aned yng
Nghymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg
ymysg oedolion 25-49 oed a aned yng
Nghymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg
oedolion 25-49 oed a aned y tu allan i
Gymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg
ymysg oedolion 50-74 oed, 2011**




**Y ganran o oedolion 50-74 oed a aned yng
Nghymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg
ymysg oedolion 50-74 oed a aned
yng Nghymru, 2011**




**Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg
oedolion 50-74 oed a aned y tu allan i
Gymru, 2011**




Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion dros 75 oed, 2011




Y ganran o oedolion dros 75 oed a aned yng Nghymru, 2011



Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion dros 75 oed a aned yng Nghymru, 2011



Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion dros 75 oed a aned y tu allan i Gymru



Hanfod

Ymgynghoriaeth iaith a gwasanaethau golygyddol

- Elidir, Ffordd Berth Ddu, Llanrwst, Conwy LL26 0HG
- huw@hanfod.net
- 07770 941097

RHAN 2: Eich Sylwadau a Newidiadau a Awgrymir. (Defnyddiwch un adran Rhan 2 ar gyfer pob sylw yr hoffech ei wneud)

1550-128-6.5

2a. Ar ba ran o'r Cynllun Adnau yr ydych chi'n gwneud sylwadau?

Polisi rhif (nodwch)	
Paragraff rhif (nodwch)	6.5
Cynigion/ Map Mewnosod (nodwch y rhif cyfeirnod)	
Map Cyfyngiadau	
Atodiadau (nodwch)	

2b. A ydych yn gwrthwynebu neu gefnogi?

Gwrthwynebu	☒	Cefnogi	☐
-------------	-------------------------------------	---------	--------------------------

2c. Rhewch fanylion eich sylwadau ar y Cynllun Adnau.

Dywedir 'Grosda lefel o duf yr ystyrir sy'n cynrychioli'r dull mwyaf cadarn, cytbwys a phriodol o ystyried yr holl ffactorau perthnasol, yn cynnwys gwaith a wnaed gan ragolygon tai ac economaids annibynnol.'

Anghytunum, eto ar seil Adroddiad
Arddwy Anghenion Tai Ardal Cyngor
Cymuned Llanystrumduy

Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os bydd angen.
Nodwch faint o dudalennau ychwanegol rydych wedi'u defnyddio.....

2ch. Os yw eich sylw yn 2c yn fwy na 100 o eiriau, darparwch grynodedb os gwelwch yn dda (dim mwy na 100 o eiriau).

2d Rhewch fanylion y newidiadau yr hoffech eu gweld i'r Cynllun Adnau

Strategaeth sy'n seiliedig ar y gwir
angen lleol.
Mae'r drol o flaen y ceffyl yma
Dylid bod wedi gwned arolwg
manwl o'r anghenion ar draws y sir.

2dd. Yd'r Cynllun yn gadarn?

Ydi	☐	Nac ydi	☒
-----	--------------------------	---------	-------------------------------------


2e. Os ydych chi'n meddwl nad yw'r Cynllun Adnau yn gadarn, pa brawf cadernid ydych chi'n meddwl y mae'n ei fethu? (Ticiwch isod os gwelwch yn dda) Rhoddir mwy o fanylion am y profion cadernid ar gefn y ffurflen hon

Gweithdrefnol				Cysondeb								Cydluniad ac Effeithiolrwydd							
P1	☐	P2	☐	C1	☐	C2	☐	C3	☐	C4	☒	CE 1	☐	CE 2	☐	CE 3	☐	CE 4	☐

Adroddiad o
AROLWG ANGHENION TAI
Ardal Cyngor Cymuned
Llanystumdwy
Rhagfyr 2014



Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd
Gwynedd Rural Housing Enabler



Arolwg mewn cydweithrediad rhwng
Cyngor Cymuned
Llanystumdwy,
a
Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd

1.

Canlyniadau Holiadur anghenion tai ardal Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cefndir ystadegol:

Yn ôl ystadegau Cyngor Gwynedd gwelwyd bod ardal ward Llanystumdwy yn 24ain yn rhestr Gwynedd o'r ardaloedd 'gwaethaf' - (heb bwysau) yng Ngwynedd ble mae amgylchiadau yn debyg o greu problemau fforddadwyaeth, (Ymarfer scopio Gwynedd Mawrth 2014) a'r incwm canolrif cartref yn ôl CACI Paycheck

yn 2009 yn £26,03,
yn 2012 yn £25,949
ac yn 2013 wedi gostwng i £25,561.

Mae 61.4% neu 527 o gartrefi wedi eu prasio allan o'r farchnad ac mae angen incwm o £32,843 i fforddio pris lefel mynediad i dŷ yn yr ardal (1/3.5x Chwarterl isaf aelwydyd) gyda 16 ty wedi ei werthu yn y flwyddyn 2013.

Yn ol cyfrifiad 2011 mae poblogaeth o 2,074 yn byw yn yr ardal gyda 84 o gartrefi yn byw mewn tai cymdeithasol.

Mae 95 ar restr tai y Cyngor am dai cymdeithasol sydd yn edrych am dŷ yn yr ardal.

1 tŷ sydd wedi derbyn grant tai cymdeithasol ers 1998 hyd y presennol.

Mae 20 tŷ gwag yn yr ardal sydd wedi eu diffinio yn wag felly am 6 mis neu fwy yn ol ystadegau treth Cyngor.

Does dim tŷ yn cael ei lesu trwy gynllun lesu preifat y Cyngor.

Mae 3 wedi cymryd mantais o gynllun Cymorth Prynu i brynu tŷ yn yr ardal ers 1999 sef un yn Chwilog a 2 yn Llanystumdwy.

Mae 3 ar restr i brynu trwy gofrestr Tai Teg sy'n gofrestr i bobl sydd am brynu tai fforddiadwy.

Rhwng 2005 a 2013 mae 3 tŷ fforddiadwy wedi eu cwblhau, gyda 1 ar y gweill yn Llanystumdwy.

Yn Ebrill 2013 doedd dim tai fforddiadwy eraill wedi eu caniatau i'w datblygu er bod 18 tŷ fforddiadwy yn bosib, sef 7 ger Tyn Rhos Chwilog, 5 ger cefn y Madryn a 6 ger Brynhyfryd Chwilog.

Bydden rhaid cael 6.4 cyflog canolrifol i fedru prynu ty canolrif yn yr ardal ar hyn o bryd, sydd yn gryn her i rywun sydd am brynu ar gyflogau'r ardal.

Cefndir gweithredol:

Yn dilyn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned a gododd sylw at y sefyllfa lleol am dai trefnodd y Cyngor gyfarfod cyhoeddus i dynnu sylw at beth oedd yr angen a hefyd ynghylch y CDLL newydd arfaethedig. Gwahoddwyd Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd i gyfarfod a chytunwyd i lunio holiadur ar y cyd i ganfod beth oedd yr angen am dai yn lleol. Cynhaliwyd yr arolwg yn niwedd Hydref 2014.

Methodoleg yr arolwg oedd i'r arolwg drwy holiadur gael ei ddosbarthu i'r holl gartrefi yn ardal Chwillog a Llanarmon ac un o bob tri yn ardal Llanystumdwy gan gynghorwyr cymuned a gwirfoddolwyr lleol i ganfod:

- yr angen am dai gan bobl leol
- barn am ddatblygiad posib ar gyfer tai cyffredinol a'r angen am dai fforddiadwy ar gyfer pobl leol yn yr ardal.

Dosbarthwyd 400 o holiaduron a llaw i'r holl dai yn ardal plwyf Llanarmon a phentref Chwillog a threuan sef 105 yn ardal Llanystumdwy allan o 345 o gartrefi ar restr treth y Cyngor yn niwedd Hydref 2014.

Gosodwyd blwch derbyn holiaduron yn Amgueddfa Lloyd George Llanystumdwy a derbyniwyd 25 yn ôl sef 24% o'r treuan. Gellir dweud petae'r holiadur wedi cynnwys pawb y byddai'r ymateb wedi bod yn fwy sef 75 o ymatebion!

Gosodwyd blychau derbyn holiaduron yn Siop Povey a Swyddfa Post Chwillog. Dychwelwyd 15 holiadur yn Siop Povey ac 88 yn y Swyddfa Post, sef 103 sydd yn ymateb o 26%

Swm yr holiadur a ddychwelwyd yn 128 gyda chyfartaledd o'r blychau i gyd yn 25.3%. Ychydig yn siomedig oedd yr ymateb gan y disgwylir y bydde yna tua 35% yn dychwelyd holiaduron yn y math yma o arolwg.

1. Canfyddiadau'r holiadur:

Ymatebodd 95 i'r holiadur yn Gymraeg a 33 yn Saesneg sef cyfanswm o 128.

1. Mae 122 o'r ymatebwyr wedi dweud mai yn y llety presennol yn yr ardal maent yn byw yn bennaf, 3 ymatebwr mewn ail gartref
2. Y math o dy mae'r ymatebwyr yn byw ynddynt yw:

Sut fydddech chi'n disgrifio lle rydych chi'n byw? *Ticiwch un blwch*

33 Tŷ pâr (semi)	3 Fflat	17 Tŷ teras (gan gynnwys ar ben rhes)
50 Tŷ sengl (detached)	23 Byngalo	0 Tŷ symudol (mewn man parhaol)
1 Arall = ty fferm		

3. Mae'r mwyafrif o 106 yn byw mewn ty sydd yn berchen iddynt, 1 rhan berchennog, 7 rhent preifat, 6 rhent cymdeithasol a 3 yn byw yn ddi-rent.
4. Mae 98 o'r ymatebwyr wedi byw yn eu cartrefi presennol dros 10 mlynedd
5. Mae'r mwyafrif o 70 yn byw mewn llety 3 llofft, 24 mewn llety 4 llofft, 10 mewn llety 5 llofft neu fwy, 17 mewn llety 2 lofft a 2 mewn llety 1 llofft.
6. Gofynwyd i'r cartrefi mewn dau holiadur gwahanol yn ardal- ward Chwillog a Llanarmon a hefyd Llanystumdwy - **A ydych chi neu unrhyw un yn eich cartref yn rhagweld y byddwch angen symud o fewn ardal Llanystumdwy a Chwillog yn y 5 mlynedd nesaf?** atebodd 14 eu bod.
7. Dyma eu manylion.
 - a. Llanystumdwy - Roedd 7 wedi llenwi'i ffurflen yn Gymraeg a 2 yn Saesneg yn datgan eu bod angen symud tŷ ond yn benodol ym mhentre Llanystumdwy – rhai am symud allan o gartref teulu ac eraill angen am dŷ mwy.

Mae hyn yn reit arwyddocaol gan fod nifer yn yr holiaduron yn dweud nad oes angen mwy o dai yn Llanystumdwy ond o ran canran mae 7 o 105 yn rif uchel ac os ydyn ni yn edrych ar y nifer o drigolion a dderbyniodd holiadur rhaid treblu hyn a gellir dweud bod hynny gyfystyr a 21 angen symud yn Llanystumdwy ei hun.

- b. Chwillog – Roedd 3 wedi llenwi'r ffurflen yn Gymraeg a 2 wedi llenwi yn Saesneg sef 5 wedi dweud eu bod am symud.

Yn y ddwy ardal, 8 o'r rhai a ymatebodd eu bod am symud oedd wedi byw yn yr ardal am 10 mlynedd a mwy, ac 1 rhwng 5 – 10 mlynedd, a'r lleill llai na hyn.

Casgliad cryno:

Gellir dweud felly o'r arolwg bod 9 cartref o drigolion lleol angen symud yn yr ardal ar hyn o bryd. (heb anghofio'r 2/3 o rai sydd heb ymateb yn Llanystumdwy sy'n ychwanegol)

2. Ystadegau'r arolwg

Sut fydddech chi'n disgrifio'r cartref / a Phryd da chi angen symud?					
	Person Sengl	Cwpl	Teulu (un neu ddau oedolyn gyda phlant)	Arall	Cyfanswm
Yn syth	0	0	0	1	1
O fewn blwyddyn	0	1	3	0	4
Mwy na blwyddyn ond o fewn 3 blynedd	2	1	0	1	3
Rhwng 3 o 5 mlynedd	2	3	0	0	5
Cyfanswm	3	5	3	2	13

Sut fydddech chi'n disgrifio'r cartref / a sawl llofft da chi ei angen?					
	Person Sengl	Cwpl	Teulu (un neu ddau oedolyn gyda phlant)	Arall	Cyfanswm
1	1	0	0	0	1
2	2	2	0	0	4
3	0	3	3	2	8
4	0	0	1	0	1
5+	0	0	0	0	0
Cyfanswm / Total	3	5	4	2	14

Y cartref sydd am symud a math o berchnogaeth neu les presennol a nifer y llofftydd sydd yn y cartref					
Nifer a lle mae nhw'n byw ar hyn o bryd	Yn berchen	Rhan berchnogaeth	Rhentu preifat	Rhentu cymd.dai	Byw yn ddi-rent
1	(2 llofft)				
2(Llanystumdwy)	(4 llofft)				
3	(4 llofft)				
4	(4 llofft)				
5(Llanystumdwy)			(2 llofft)		
6	(2 llofft)				
7			(3 llofft)		
8(Chwilog)				(3 llofft)	
9 (Llangybi)	(2 llofft)				
10(Chwilog)				(3 llofft)	
11(Chwilog)	(5 llofft)				
12(Chwilog)	(5 llofft)				



13(Chwilog)	(3 llofft)				
Cyfanswm	9		2	2	

Y cartref sydd am symud a pha ardal y byddent yn ystyried byw/ (cyfeiriad presennol mewn cromfachau)

Nifer a lle mae nhw'n byw ar hyn o bryd	Llanystumdwy	Chwilog
1	1	
2(Llanystumdwy)	1	
3	1	
4	1	
5(Llanystumdwy)	1	
6	1	1
7		1
8(Chwilog)		1
9 (Llangybi)	arall	arall
10(Chwilog)		1
11(Chwilog)	1	1
12(Chwilog)	1	1
13(Chwilog)		1
Cyfanswm	8	7

Sut fydddech chi'n disgrifio'r cartref / a Phryd da chi angen symud

	Yn syth	O fewn blwyddyn	Mwy na blwyddyn ond o fewn 3 3	Rhwng 3 – 5 blynedd	Cyfanswm
Person sengl	0	0	1	2	3
Cwpl	0	1	1	3	5
Teulu	0	3	0	0	3
Arall	1	0	1	0	2
Cyfanswm	1	4	3	5	13



Faint y gall y cartref ei dalu os am rentu a math o gartref a ffurfir	Person Sengl	Cwpl	Teulu (un neu ddau oedolyn gyda phlant)	Arall	Cyfanswm
Hyd at £50/wythnos hyd at £220/mis	1	0	0	0	1
£51 i £70/wythnos £221 i £300/mis	1	0	0	0	1
£71 i £90/wythnos £301 i £390/mis	0	0	2	0	2
£91 i £120/wythnos £391 i £520/mis	1	0	1	0	2
£121 i £150/wythnos £521 i £650/mis	0	0	1	0	1
Mwy na £150/wythnos Mwy na £650/mis	0	0	0	0	0
Dim am rentu	0	4	0	2	6
Cyfanswm	3	4	4	2	13

Faint y gall y cartref ei fenthg i brynu a math o gartref a ffurfir	Person Sengl	Cwpl	Teulu (un neu ddau oedolyn gyda phlant)	Arall	Cyfanswm
Hyd at £40,000	0	0	0	0	0
£40,001 - £60,000	0	0	0	0	0
£60,001 i £80,000	1	2	0	0	3
£80,001 i £100,000	0	0	1	0	1
£100,001 i £120,000	0	0	0	0	0
£120,001 i £140,000	0	0	0	0	0
£140,001 i £160,000	0	0	0	1	1
£160,001 i £180,000	0	0	1	0	1
Mwy na £180,000	0	3	1	1	5
Dim am brynu	1	0	1	0	2
Cyfanswm	2	5	4	2	13

Sut fyddai'r cartref yn talu am eu llety a math o gartref a ffurfir?						
	Person Sengl	Cwpl	Teulu (un neu ddau oedolyn gyda phlant)	Arall	Cyfanswm	Prif ddewis /
Prynu ar y farchnad agored	2	5(1)	1	2	10	1
Rhentu gan y sector preifat	2	0	2	0	4	
Rhentu gan y Cyngor neu Gymdeithas Dai	1(1)	1	2	0	4	1
Prynu'n rhannol gyda'r Cyngor neuGymdeithas dai	2	1	0	0	3	
Rhan o gynllun rhatach gydag amodaua chyfyngiad ar ail werthu	2(1)	0	0	0	2	1
Hunan adeiladu	1	3(1)	1(1)	1(1)	6	3
Arall	0	1	0	0	1	
Cyfanswm	3	5	4	2	14	

Sut fydddech chi'n disgrifio'r cartref / a Pham da chi angen symud?					
	Person Sengl	Cwpl	Teulu (un neu ddau oedolyn gyda phlant)	Arall	Cyfanswm
Rhy fach			2	1	3
Rhy fawr		3		1	4
Angen gwaith trwsio		1		1	2
Anaddas ar gyfer anghenion corfforol		2		1	3
Llety dros dro			1		1
Angen byw yn agos i'r gwaith					
Angen byw yn agos i berthynas		1			1
Angen byw yn agosach i ofalwr neu i roi gofal				1	1
Angen byw yn annibynnol	3				3
Cael fy aflonyddu			1	0	1
Arall			1	0	1
Cyfanswm	3	4	4	2	13

Y cartref sydd am symud a pha ardal y byddent yn ystyried byw/					
	Person Sengl	Cwpl	Teulu (un neu ddau oedolyn gyda phlant)	Arall	Cyfanswm
Llanystumdwy	3	2	1	2	8
Chwillog	1	3	3	0	7
Arall	1	2	0	0	2
Cyfanswm	3	4	4	2	13

Y cartref sydd am symud ac os ydynt ar restr aros /					
	Person Sengl	Cwpl	Teulu (un neu ddau oedolyn gyda phlant)	Arall	Cyfanswm
Rhestr aros y Cyngor	0	0	2	0	2
Tai Teg i brynu	0	0	0	0	0
Na	3	4	4	2	13

Y cartref sydd am symud ac os fyddent â diddordeb mewn plot hunan adeiladu neu adeilad gwag i'w adnewyddu /					
	Person Sengl	Cwpl	Teulu (un neu ddau oedolyn gyda phlant)	Arall	Cyfanswm
Ydw	3	3	2	0	8
Nacydw	0	1	1	0	2
Hwyrach	0	0	1	1	2
Cyfanswm	0	0	0	0	12

Y cartref sydd am symud ac a oes angen ty o fath penodol arnynt /						
Oes angen ty o fath penodol arnoch?	Person Sengl	Cwpl	Teulu (un neu ddau oedolyn gyda phlant)	Arall	Cyfanswm	
Na	3	3	4	1	11	
Oes, llety ar y llawr gwaelod	0	1	0	1	2	
Oes, tŷ lloches gyda gwasanaethau cynorthwyol	0	0	0	0	0	
Oes, llety arall gyda gwasanaethau cynorthwyol	0	0	0	0	0	
Oes, gofal preswyl	0	0	0	0	0	
Arall	0	1	0	0	1	
Cyfanswm	3	5	4	2	14	

Y cartref sydd am symud ac a fyddent a diddordeb byw yn Chwillog/					
Mae cyfle i godi tai yn Chwillog a fyddde gennych ddiddordeb byw yma?	Person Sengl	Cwpl	Teulu (un neu ddau oedolyn gyda phlant)	Arall	Cyfanswm
Byddwn	1	1	3	0	5
Na fyddwn	1	0	1	2	4
Efallai	1	1	0	0	2


Y cartref sydd am symud ac yn credu bod angen YmTiC/					
	Person Sengl	Cwpl	Teulu (un neu ddau oedolyn gyda phlant)	Arall	Cyfanswm
Ydw	2	2	1	0	5
Nacydw	1	1	1	2	5
Dim yn siŵr	0	2	2	0	4
11 o blaid bod angen YmTiC o'r holl ymatebwyr					

Mae 50 o ymatebwyr wedi dweud 'Dim yn siŵr / efallai' i'r cwestiwn gyda 38 o'r rhain wedi llenwi yn Gymraeg a 12 yn Saesneg.

Pobl sydd am ddychwelyd i'r ardal

Ar wahân i chi eich hun neu unrhyw un arall yn eich cartref, a ydych chi'n gwybod am unrhyw un â 'chysylltiad lleol' nad yw'n byw yn ardal Llanystumdwy ar hyn o bryd ond a hoffai symud i fyw yn ôl i'r ardal? Ystyr 'cysylltiad lleol' yw "pobl sydd wedi byw neu weithio yn ardal y Cyngor Cymuned, neu ardal Cyngor Cymuned cysylltiol, am bum mlynedd neu fwy". = 5 oedd y nifer gyda 2 gyfeiriad yn nodi rhai am ddychwelyd o Bontarddulais a Phenrhyndeudraeth.

Os oes angen yn cael ei ganfod, a fydddech chi'n hapus i weld ac yn gefnogol i ddatblygiad bychan o dai fforddiadwy ar gyfer pobl a chysylltiad lleol yn eich cymuned?
If a need is identified, would you be happy to see and support a small development of affordable housing for local people in your community?



	Os oes angen yn cael ei ganfod, a fydddech chi'n gefnogol o ddatblygiad bychan o dai ar gyfer pobl a chysylltiad lleol yn eich cymuned? Rhewch resymau dros hyn, os hoffech chi wneud hynny.	Byddwn	Na fyddwn	Efallai
1	Pwysigrwydd tai 'fforddiadwy' i bobl ifanc sydd eisiau byw o fewn ardal eu magwraeth	1		
2	Mae gennyf blant na allai fforddio tŷ fel arall	1		
3	datblygiad bychan i Gymry lleol	1		
4	Er mwyn rhoi cyfleoedd teg i bobl ifanc yr ardal fyw/dychwelyd i fyw i'r ardal mewn ffurf fforddiadwy.	1		
5	CARTREF I BOBL LLEOL	1		
6	ER MWYN HELPU TEULUOEDD IFANC I YMGARTREFU YN YR ARDAL	1		
7	Mae'n bentref gyda cymysg eang o wahanol dai yn barod, bysai lleihau yr ardaloedd gwyrdd o fewn ac o gwmpas y pentref yn ei ddinistrio i drigolion presennol		1	
8	Mwy o blant i gadw'r ysgolion a'r cylchoedd ar agor.	1		
9	Mae'r diffyg tai 'teulu' yn broblem yma ond mae hwn yn bentref unigryw ac mae'n hanfodol gwarchod ei naws a'i dreftadaeth.		1	
10	Dibynnu faint o dai a phwy fuasai'n dod yno i fyw			1
11	Mae tai ar werth yn y pentref ers 3/4 mlynedd a neb eu hangen er gwahanol brisiau. Mae yna ddigon o fewnfudwyr yma'n barod sydd ddim yn cymysgu na chefnogi'r gymuned.		1	
12	Ofn i bobl di-gymraeg symud i mewn a seisnigeiddio mwy ar yr ardal. Eto os yw Cymry ifanc lleol angen yna o blaid. Angen rhoi amodau llym i reoli mewnlifiad di-angen.			1
13	This is a rural village that benefits from green spaces making it a pleasant place to live. Any further development would ruin it.		1	
14	Hefyd rhentu	1		
15	Os bydd y datblygiad yn cael ei gefnogi mi fuaswn yn gobeithio fod o leia mwyafrif o'r tai yn caei ei gwerthu fel tai fforddiadwy i bobl yr ardal yn unig ac nid jesd 1 neu 2 o dai allan o'r stad gyfan. Mae'n bwysig codi tal fforddiadwy mewn pentrefi fel Chwillog er mwyn sicrhau fod pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael y cyfle i fyw o fewn eu cynefin.	1		
16	There is no local work to support new housing and no public transport.		1	
17	I gael pobl leol yn ol i'r gymuned	1		
18	I roi gwaed newydd yn y gymuned			1
19	Support local business and school	1		
20	To provide large families with bigger houses	1		
21	Mae oleiaf 13 o dai ar werth ar hyn o bryd yn y pentref Chwillog, a rhai eraill ar y cyron. Dim angen adeiladu mwy o dai.			1
22	Angen ar gyfer bobl ifanc	1		
23	Os oes angen gan rhywun a methu cael tŷ yn yr ardal mae'r ysgol, y siop a'r post yn dioddef	1		
24	Cefnogol iawn i ddatblygiad at anghenion LLEOL yn unig	1		
25	Mae digon o dai ar werth yn yr ardal yn barod. Mi fuasem yn cefnogi meibion fferm iddynt gael adeiladu cartref ar dir y fferm ond dim adeiladu stad o dai mwy o bobl a dim cysylltiad ar ardal ddoith yma i fyw		1	
26	Er mwyn cael tai modern hwylus ac o safon uwch na rhai o'r stoc bresenol	1		
27	***CYSYLLTIAD LLEOL*** Credaf mai dyma fyddai dymuniad fy mam ynghyfraith oedranus pe gallai ymresymu fel yn y gorffennol!	1		
28	Os canfyddir angen ar gyfer pobl a chysylltiad lleol yna dylid adeiladu nifer	1		

	cymhedrol.Er lles y gymdeithas gynhenid a'i datblygiad a chael mwy o blant i'r ysgol.			
29	Mae nifer o dai ar werth yn yr ardal yn barod rhai ers dros flwyddyn a rhaid ystyried yr IAITH		1	
30	Does dim angen- digon o dai ar werth yn y pentref		1	
31	***cysylltiad lleol***			1
32	Ydi'r FFYLIAD yn y brif ddinas yn deallt fod unrhyw fewnlifiant yn debygol o ddinistro ein cymuned GYMRAEG????		1	
33	Byddai pobl sydd a chysylltiad a'r ardal yn fwy parod i gyfrannu eto i fywyd yr ardal	1		
34	Ar yr amod bod yr iaith Gymraeg yn cael blaenoriaeth			1
35	Cael cartrefi hwylus i'r henoed	1		
36	Byddai datblygiad bychan fforddiadwy yn iawn ar gyfer bobl ifanc neu henoed- eiddo llai yn brin ar gyfer henoed h.y. 1 stafell wely	1		
37	Mae angen mwy o dai i bobl lleol OND angen datblygiadau BYCHAN mewn pentrefi	1		
38	Angen mwy o dai un llawr i hen bobl agos i siop a bysiau ag sydd bosib iw rhentu			1
39	Mae hyd yn oed 'ychydig o dai/datblygiad bach' yn denu 'Tai Eryri' a'i math i fachu rhai tai ac yna bydd pob math o rybish yn dod i'r ardal!!			1
40	Mae caniatad i 50 uned yn barod. Ma hyn yn fwy na digon!!!		1	
41	Cefnogi busnesau lleol fel y Siop, Cigydd,Ysgol,Neuadd ayyb	1		
42	Mae llawer o dai ar werth yn y pentref yn barod		1	
43	Dim rhesymau efallai yn posib ond ddim yn siwr eto (?)			1
44	Yn bryderus am y nifer o dai mae y cyngor /llywodraeth yn tanlinellu iw adeiladu yn Chwillog yn y blynyddoedd nesaf yn barod.			1
45	Mae'n bwysig cadw pobl ifanc yma	1		
46	Os yw'r iaith yn cael ystyriaeth, yn gefnogol cryfhau yr ysgol er budd teuluoedd Cymraeg	1		
47	There are quite a few houses on sale in Chwillog already, so there is no need to build more houses			1
48	It would ensure future of the village. Also village businesses and school	1		
49	Depends on what and where and how affordable			1
50	Define small			1
51	There isn't enough housing for everyone in this area	1		
52	Cherish your heritage. Cadw Cymru. Cymru am byth	1		
53	More work and lot of people need good housing	1		
54	Seem to be many houses on the market available at the moment why need more?		1	
55	Why discriminate		1	
56	I think the housing market is stagnant and there are already many houses of different types for sale without the need of new builds	1		
57	Need the community to be kept strong and house prices to be affordable to locals	1		
58	WHAT OTHER CONDITIONS QUALIFY AS 'LOCAL' OTHER THAN 5 YEAR RESIDENCY	1		
59	Nid oes angen adeiladu rhagor o dai yn yr ardal gan fod yn bresennol 13 o dai gwag ac ar werth yn y pentref a'i cyrion gyda prisiau amrywiol. e.g 3 ty gwag, 6 t? ar werth, 4 ty yn cynnwys 1 tyddyn bychan ag angen eu hadnewydd. Mae 2 o'r tai hyn yng nghanol y pentref sydd yn ddolur i'r llygaid. Un ers oddeutu 6 mlynedd ag 1 arall ers oddeutu 15 mlynedd. Dylid rhoi dewis i'r perchnogion hyn unai i orffen y gwaith ar y tai , eu hail werthu i rhywun arall cymwys, neu eu tynnu i lawr a twtio'r man lle maent. Rwy'n methu a deall sut fod y Cyngor yn caniatáu hyn gan ei bod yn golled ariannol sylweddol mewn trethi.		1	

	Nodwch a ydych chi'n gwybod am unrhyw safleoedd, tir, adeiladau diwydiannol neu adeiladau gweigion sydd ar gael yn ardal yr arolwg y gellir eu hystyried ar gyfer cynllun tai ar gyfer pobl lleol arwahan i safleoedd wedi eu dynodi? Rhowch fanylion yma ac enw cyswllt.	Ymateb yn Gymraeg	Ymateb yn Saesneg
1	Cae drws nesa i ty'n ddol a cae peldroed top	1	
2	Mae yna ddarn o dir tu ol i dafarn y plu fuasai'n addas ar gyfer nifer o dai i'w gosod ar rent yn unig i drigolion lleol.	1	
3	Cae drws nesaf i 'Ael y Bryn' yn ganol y pentref. Cae tu ol i Tafarn Madryn Chwilog. Bryn Hyfryd.	1	
4	Pwllheli		1
5	Hen safle golchdy afonwen	1	
6	Land between chwilog and lon goed		1
7	Cae gyferbyn a dolydd Chwilog 01766.....	1	
8	Byngalo gwag ers 2003 yn stad cae capel sef garth 3 cae capel chwilog.	1	
9	Tir o bobtu'r ffordd ger plas ewig a dolydd	1	
10	Mae tri safle ond digon o dai yn barod	1	
11	Gerddi Buckingham Palace, Gardd Carwyn Jones, Parc Carafannau lleol	1	
12	Gwybod am 3 safle ond digon o dai yn Chwilog yn barod	1	
13	Afonwen- adeilad wedi ei adael i ddirywio ers blynnyddoedd	1	
14	Mae digon wedi eu clustnodi	1	
15	I know there is one bungalow empty in cae capel estate, and has been for a long time		1
16	HafonWen?????		1

Mae cymunedau cynaliadwy angen gwaith yn ogystal â lle i fyw. Oes angen gwaith neu le i weithio arnoch? Os oes pa fath?	
Oes	Nacoes
3	7
Dim atebion arwahan i waith gweinyddol yn y diwydiant twristiaeth	

	Unrhyw sylw arall? ac A fydddech chi'n gefnogol o ddatblygiad bychan o dai ar gyfer pobl a chysylltiad lleol yn eich cymuned	Byddwn	Na fyddwn	Efallai
1	Mae Llanystumdwy yn le braf a distaw i fyw ohewrydd yr ardaloedd gwyrdd a'r coed ymysg y tai. Ddylai hyn barhau. Os fuasai newid mawr a datblygiad o fwy o dai, fysw'n yn ystyried symud o'r pentref.	0	1	0
2	Mae fy ngwr wedi bod yn byw yn ein heiddo am dros 10 mlynedd bellach ac mae wedi bod yn talu cyfraddau ar gyfer yr eiddo fel adeilad ar wahan nid anecs. Pan fyddwn yn gwneud cais i'r adran gynllunio am estyniad maent yn gyntaf yn dweud ein bod yn ei wneud er mwyn gwerthu'r eiddo. Mae'n ymddangos nad oeddynt yn cymryd bod 4 o bobl yn byw mewn eiddo un stafell wely i ystyriaeth. Yna, fe ddywedon nhw nad oedd modd i ni oherwydd bod ganddynt yr adeilad i lawr fel anecs (er ein bod ni'n talu cyfrandau ac mae fy ngwr wedi bod yn byw ynddo am dros 10 mlynedd. Nawr rydym yn gorfod talu cost ar ôl cost i'w datrys y cyfan, yn y cyfamser	1	0	0

	rydym fel teulu o 4 (merch 8 mlwydd oed a mab 10 mis oed) yn parhau i fyw mewn eiddo un stafell wely.			
3	Mae gwir angen man fel lle bwyta (caffi) bychan a siop yn y pentref yn arbennig yn ystod tymor yr ymwelwyr, gan fod cymaint o lwybrau yn dod trwy'r pentref e.g gwneud defnydd o'r neuadd gan i benwythnosau gwyl y banc fod yn llwyddianus iawn flwyddyn yn ol. Nid yw'r Plu'n agored ond ar y gyda'r nosau.	0	1	0
4	Nifer o dai ar werth yn Llan yn amrywio o ran pris o £70,000 i £260,000. Wedi bod ar y farchnad am gyfnod hir iawn. Llauer o'r gweithwyr yn dweud nad oes diddordeb – dim hyd yn oed 'viewings'.	0	0	1
5	The village is already a mix of oddly placed development it doesnt need more.	0	1	0
6	Mae angen lle parcio ceir i dai y pentref, dim ond cael parcio ar un ochr ond tai ar y ddwy ochr. Beth am gefn madryn fel maes parcio.	0	0	1
7	Rhentaf un ty a cheisio gwneud hynny i deulu ifanc lleol. Mae Eglwys Siloh hefyd yn ceisio rhentu i drigolion lleol am bris teg.	1	0	0
8	Teimlaf fod digon o dai ar werth yn Chwillog yn barod. Oes angen mwy?	0	0	1
9	Mae nifer fawr o dai ar werth yn Chwillog ar hyn o bryd.	0	1	0
10	DIM OND OS FUASAI'N GYMUNED GYMREIG. GWAITH I'R CYMRY!!!!	0	1	0
11	mae angen i unrhyw ddatblygiad fod yn fforddiadwy incwm/cyflogau yn isel yn yr ardal	1	0	0
12	Pam na chaiff ambell gais adeiladu unigol ei gymeradwyo. Petai Cyngor Gwynedd yn caniatáu ambell gais unigol ni fuasai cymaint o ofyn am stadau - bach neu beidio. Yn anffodus mae gormod o riff-raff di-waith yn cael tai neis, braf yn rhad. Pam na wnaiff y Cyngor brynu ambell dy teras sy'n bodoli yn barod a rhoi teuluoedd i fyw yn rhain? Pa hawl sydd gan ambell deulu i fagu fel cwningod ac wedyn swmian am dy 5 llofft? Mae llefydd fel Afonwen yn cael ei rhedeg gan nifer o bobl o Poland, Lithuania, Latvia, Romania. Pam? Does dim bai arnyn nhw, pobl di-waith ardal Pwllheli yn rhy fawreddog a diog i weithio yn Afonwen. Mae digonedd o waith yn yr ardal, ond mae'r bobl yn rhy fussy ac yn cael eu ffordd.	0	0	1
13	Ar hyn o bryd mae 15 o dai ar werth yn Chwillog am bris o £90,000-£450,000, rhai ohonynt ar y farchnad ers 2011. Oes angen 40 arall? Nagoes yw fy marn bendant i. Os yw'n rhaid i ddatblygiad o'r fath fynd ymlaen dylid sicrhau nad yw nawdd gymdeithasol a ieithyddol y pentref yn cael eu peryglu mewn unrhyw ffordd. Mae prinder meddygol yn broblem fawr yn yr ardal yma. A oes gwaith ar eu cyfer? Mae Ysgol Chwillog yn gymreigaidd iawn ar hyn o bryd – ofnaf yn fawr mai mewnfudwyr fyddai yn medru fforddio i brynu'r tai yma.	0	0	1
14	Digon o dai yn bresenol yn y pentref	0	0	1
15	Cefnogol yn ddibynnol fod ystyriaeth yn cael ei wneud i'r iaith	1	0	0
16	Second homes and an ageing population pose most problems. More sheltered housing needed to release more homes	0	0	1
17	Planning takes too long to pass.	1	0	0
18	IMPORTANT: How does shoreline management plan and housing insurance feed into your survey? If it doesn't then it should. works grant would change the outcomes but there isnt one.* 'the future' is all guess work. We could be dead in 5 years time but the council needs a plan. In 5 years we will not be able to care for or pay for large property. Do not know if social services input changes outcome.* We are pensioners not eligible for mortgage in future. * selfbuild-cost affects this* what is influence of 'shore' plan as insurance IS affected * better to live near a relative than spend lots of valuable time travelling. Better to know people. * What is survey area extent. Which housing areas. * CLT= very SMALL housing, needs some space for hobbies, storage, visitors. *The shoreline management plan and its influence on buildings insurance. LL53 (Chwillog) is considered a part of pwlheli flood plain by legal and general ins.co. Have you researched this consequence???	1	0	0
	Total	6	5	7

3. Stoc Tai

Tai / plotiau ar werth ac ar osod. Ionawr 2015

Mae 10 tŷ rhwng £90,000 a £200,000 ar werth yn Chwillog a dim tai i'w rhentu (rightmove)

Mae 4 tŷ rhwng £129,000 a £199,000 ar werth yn Llanystumdwy a dim tai i'w rhentu (rightmove)

4. Casgliad o'r Arolwg

Sylw cyffredinol: Siomedig oedd yr ymateb i'r arolwg. Disgwylir oddeutu 25% - 35% i ymateb i arolwg o'r fath. Sylwer nad yw pawb wedi llenwi pob cwestiwn pan ddarllenwch yr adroddiad.


1. Tystiolaeth o'r arolwg bod yna 14 (8 wedi cynnwys eu henwau a'u cyfeiriadau) yn dymuno symud yn ardal Chwillog a Llanystumdwy. Mae'r nifer yn dangos bod yna groestoriad o bobl sengl (4), a chylau (5) a theuluoedd (4) ac arall (2) am symud.
2. Mae'r bobl sengl yn dymuno symud rhwng blwyddyn a 5 mlynedd tra bod y mwyafrif o'r cyplau (3) am symud rhwng 3- 5 mlynedd a'r teuluoedd (3) i gyd am symud o **fewn blwyddyn** ac arall un yn syth a'r llall mewn blwyddyn ond o fewn 3 blynedd.
3. Y rhesymau pennaf am y symud yw bod 3 (teulu ac arall) yn dweud bod eu cartref yn rhy fach, 4 (cwpl hŷn ac arall) yn dweud ei fod yn rhy fawr, 3 yn dweud bod eu cartref yn anaddas ar gyfer anghenion corfforol gyda 3 person sengl yn dweud eu bod angen byw yn annibynnol.
4. Y mwyafrif sydd am symud yw dynion a merched rhwng 20 -44 oed (6 bob un) gyda'r oedran nesaf fyny sef 45-64 (4 yr un) tra bod plant Ifanc 0-9 tair merch ac un bachgen gyda phobl hyn 65-74 oed (3 merch ac un dyn) am symud gyda 4 person (2 ddyn a 2 ddynes) dros 75 yn awyddus i symud.
5. Gellir ystyried ffigyrau'r Llywodraeth isod bod yna ganran o dai sydd yn fach iawn o gymharu â'r nifer sydd yn byw ynddynt, ac mae'r ystadegau o'r cyfrifiad yn dangos bod 17 cartref yn ward Llanystumdwy
<https://neighbourhood.statistics.gov.uk/dissemination/LeadTableView.do?a=7&b=13696269&c=llanystumdwy&d=14&e=7&g=6489124&i=1001x1003x1004&m=0&r=1&s=1421247897609&enc=1&dsFamilyId=2557>
a gormod o bobl sef un yn fwy na ddylid ei ystyried yn byw mewn un llety. Tra bod 3 cartref a 2 aelod yn ormod yn byw yn y llety sef bod eu tŷ yn rhy fach.
6. Mae'r angen am wahanol fathau o dai gyda niferoedd llofftidd hefyd fel y gellir dychmygu bod cyplau(2) am lety 2 llofft a (3) am lety 3 llofft. Y teuluoedd yn dymuno symud i lety sydd a 3 neu 4 llofft a'r personau sengl yn edrych am 1 a 2 llofft .

7. Er mwyn fforddio llety tydy 4 cwpl ddim am rentu, sydd yn wahanol i'r personau sengl a'r teuluoedd gyda 3 person sengl a 4 teulu yn ystyried rhentu. Mae 2 o'r Arall hefyd ddim am rentu. Gellir tybied felly mai cyplau hyn ydy'r rhain sydd yn berchnogion.
8. O'r rhai sydd yn gallu cael morgais, mae yna fwyafrif (3) ond yn gallu fforddio hyd at £80,000 o forgais tra mae yna rai eraill (6) yn gallu fforddio hyd at £140,000 a rhai hyd at £180,000.
9. Mae'r nifer sydd yn gallu / dymuno Rhentu yn 7 tra mae'r rhai sydd yn gallu / dymuno prynu'n rhannol yn 11. (Rhaid cofio bod yr holiadur yn gofyn i'r ymatebwr am holl ffyrdd o dalu y medrent ei wneud ac nid un math). Rhaid edrych i mewn i hyn mewn mwy o fanylder os bydd cynllun datblygu o unrhyw fath yn debygol a gofyn am fwy o wybodaeth.
10. Mae mwyafrif yr ymatebwyr sydd am symud sydd am rentu yn methu gwneud hynny gan nad oes dim yn cael ei hysbysebu trwy'r asiantaethau tai ac mae rhai (3) yn methu prynu tŷ yn yr ardal ar y farchnad agored oherwydd eu bod yn rhy ddrud. Mae yna dai ar y farchnad o fewn cyrraedd 8 o'r ymatebwyr ar hyn o bryd yn yr ardal.
11. Ychydig o dystiolaeth sydd bod yna ddigonedd o dai ar gyfer rhent cyhoeddus yn ôl rhestr aros gyda 95 yn disgwyl cael eu cartrefu ond does dim sicrwydd bod y rhai hyn yn bobl lleol.
12. Fel sydd yn gyffredin mewn cymunedau ychydig sydd yn cofrestru am gael symud ty. Dim ond 2 deulu o'r 13 a ymatebodd sydd wedi nodi eu bod ar restr aros y Cyngor
13. Plot Hunan adeiladu neu adeilad gwag i'w adnewyddu - Gwelwyd bod yna ddiddordeb yn hyn gyda 8 o'r 12 a ymatebodd a diddordeb ynghyd â 2 arall yn fodlon ystyried gwneud.
14. O ran pa ardal yr hoffai'r rhai sydd am symud fyw - Ychydig o wahaniaeth oedd yna rhwng ardal Llanystumdwy (8) a Chwilog (7).
15. Gan ystyried bod yna safloedd wedi eu clustnodi yn y Cynllun Datblygu Unedol yn Chwilog i godi tai, dim pob un oedd yn gweld hyn fel ardal y b yddent am symud iddo i fyw gyda 5 yn dweud y byddent, 2 efallai ond 4 yn dweud na fyddent.
16. Pan ofynnwyd am ymateb i gwestiwn am Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol ac a oedd angen un yn yr ardal; arwahan i'r rhai oedd wedi datgan diddordeb mewn angen am dy yn yr ardal, ychydig iawn oedd yn ystyried bod angen YmTiC. Ymatebodd 11 o'r holl ymatebwyr eu bod yn credu bod angen YMTIC a 50 yn dweud 'Dim yn siŵr / efallai', i'r cwestiwn gyda 38 o'r rhain wedi llenwi yn Gymraeg a 12 yn Saesneg. O bosib nad oes yna ddigon o drigolion lleol yn ymwybodol o beth yw hyn.
17. Pan holwyd am gyfleoedd gwaith. Ychydig oedd yr ymateb (10) gyda sylw unai eu bod yn 'rhy hen', 'lle mae'r gwaith' a'r unig sylw oedd angen am swydd gweinyddol maes twristiaeth. Doedd neb yn holi am unedau gwaith nac arall.
18. Hefyd ym Mawrth 2014 yn ôl Cyngor Gwynedd mae yna 20 o dai gweigion hir dymor wedi eu cofrestru felly yn ardal Cyngor Llanystumdwy.

5. Ffordd Posib Ymlaen

1. Dylid ystyried cynnal diwrnod agored ar gyfer y rheiny na wnaeth ymateb
2. Cofrestru'r rhai nad sydd ar restr aros er mwyn cadarnhau'r dystiolaeth ac i gadarnhau eu bod mewn angen, bydd rhaid cael mwy o fanylion gan unigolion er mwyn symud ymlaen.
3. Angen ystyried sut mae modd gwneud gwell defnydd o stoc tai presennol yr ardal gyda nifer o dai gweigion.
4. Os yn penderfynu ar ddatblygiad, mae angen canfod tiroedd addas / addasu hen adeiladau ar gyfer datblygiad bychan yn Chwillog a Llanystumdwy!
5. Gyda safleoedd a chynlluniau i ddatblygu tai wedi eu cymeradwyo yn y CDU beth yw'r ffordd ymlaen ynghylch datblygu'r safleoedd hyn os o gwbl ar raddfa dderbyniol gan bawb – bydd angen trafodaeth pellach ar hyn rhwng rhanddeiliaid sydd yn cynnwys datblygwr, tirlfeddiannwr, adran cynllunio a'r gymuned leol ac ati fydd yn lles i'r ardal gan gynnwys effaith ar wasanaethau presennol, addysg, diwylliant, economi ac isadeiladedd ac ati.
6. Nid oes grant tai cymdeithasol ar gael yn y tymor byr ond mae posibilrwydd edrych ar fenthg arian drwy Ymddiriedolaeth Tir Cymunedo i ddiwallu angen i dalu am hunan adeiladu neu adnewyddu a chael morgais i dalu hyn ar ddiwedd y gwaith. Bydd angen sefydlu grwp lleol i weithredu hyn mewn perthynas ag ymddiriedolaeth tir cymunedol sirol a chefnogaeth swyddog. (sydd yn cael ei wyntyllu ar hyn o bryd.)

Aseswyd gan
Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd



Arfon Hughes, Hwylusydd Tai Gwledig – Rural Housing Enabler
Ionawr 2015

Ffynonellau gwybodaeth/ Information sources:
Cyngor Gwynedd
NESS a NOMIS gwefannau'r Llywodraeth
Asiantaethau Tai Lleol.